Perfformiad y ddiadell yn holl-bwysig i ganfod yr eneteg orau

Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

Huw Rees Jones, Glanyrafon, Llanbedr Castell-paen, Powys

Mae Glanyrafon yn fferm dir uchel a mynydd wedi'i gwella lle mae pwyslais ar berfformiad i ganfod yr anifeiliaid gorau ar gyfer bridio. Mae'r eneteg gywir yn chwarae rhan annatod yng nghanlyniadau'r fferm yn gyffredinol megis cynaliadwyedd a mwy o elw. Felly, bydd Huw Rees Jones yn cadw llygad barcud ar gynhyrchedd ei ddiadell: "Wrth bwyso anifeiliaid yn rheolaidd, câf doreth o wybodaeth am fy mamogiaid a hyrddod," meddai Mr Jones. "Po fwyaf o wybodaeth sy'n cael ei chasglu y gorau y gallaf olrhain perfformiad y ddiadell yn gyffredinol."

Mae'r ddiadell yn cynnwys 1,000 o ddefaid Aberdale masnachol a 200 o ddefaid Texel purlinach. Mae'r ddiadell Texel yn darparu hyrddod terfynol ar gyfer ei ddiadell fasnachol ei hunan yn ogystal â chynhyrchu blwyddiaid ar gyfer y gwerthiannau hyrddod yn yr haf. Mae'r hyrddod a gynhyrchir gan y fferm yn dod o'r eneteg gryfaf oherwydd dydy'r hyrddod byth yn cael eu rhoi dan do; bydd unrhyw hwrdd nad yw'n cyrraedd y nod o ran perfformiad yn ystod y gaeaf cyntaf yn cael ei ddifa. Mae hyn yn sicrhau bod yr hyrddod sydd ar ôl yn galed; yn gallu perfformio adeg hwrdda, a heb angen llawer o ofal yn ystod y gaeaf canlynol.

Mae'n bwysig i'r busnes fod yr hyrddod hyn, sy'n cael eu gwerthu i gynhyrchwyr eraill, yn gallu perfformio'n dda o dan bwysau ac yn cynhyrchu ŵyn â llawer o gig sy'n bodloni meini prawf y farchnad. Mae'r prynwr wedyn yn fwy tebygol o brynu rhagor o hyrddod. "Mae'n bwysig iawn i mi fod ffermwyr sy'n prynu fy hyrddod yn gwneud hynny'n hyderus ac yn dod yn ôl i brynu eto. Felly, mae'r rhaglen fridio'n manteisio'n fawr pan fyddwn yn canfod yr achau sy'n cynhyrchu'r hyrddod hyn yn gyson."

Mae llygad barcud yn cael ei gadw ar linach y mamogiaid yn y ddiadell Texel. Mae eu geneteg a rheolaeth yn chwarae rhan bwysig yn llwyddiant y tymor wyna. Am fod y ddiadell yn cael ei rheoli i raddau helaeth gan un uned, mae'n bwysig fod y mamogiaid yn wyna'n rhwydd heb fawr o gymorth ac eto'n gallu cynhyrchu ŵyn cryf sy'n tyfu'n gyflym.

Ychwanegodd Mr Jones: "Mae'r ddiadell fasnachol yn seiliedig yn bennaf ar ddefaid Aberdale oherwydd eu hepilgarwch. Mae llinach Texel ar ochr y fam yn ategu'r eneteg bresennol a gall helpu i gynhyrchu carcasau â gwell cydffurfiad, yn enwedig ar gyfer y farchnad da byw." Bydd y ddiadell yn wyna yn ystod tri chyfnod gwahanol – y defaid Texel ddechrau mis Mawrth, y brif ddiadell fasnachol o ddechrau mis Ebrill a'r mamogiaid sy'n magu ŵyn cyfnewid o ganol mis Ebrill. Mae gwneud hyn yn taenu'r baich gwaith. Ers cyflwyno'r defaid Aberdale, cafwyd 20% yn fwy o wyn gyda'r un costau cynhyrchu. Mae'r ganran sganio wedi cynyddu i tua 190% ar gyfartaledd, ond mae tribledi'n fwy tebygol.

Mae Mr Jones yn pwysleisio bod rheolaeth ofalus yn hollbwysig wrth ymdrin â mamogiaid eplilgar iawn; rhaid iddyn nhw allu ymdopi â system fynydd a phorfwyd trwy adfer y cyflwr cywir ar ôl diddyfnu'r ŵyn yn ddeuddeng wythnos oed a bod yn barod ar gyfer hwrdda.

Bob blwyddyn bydd Glanyrafon yn ailhau canran o dir y fferm ac eleni mae Mr Jones wedi hau Llyriad a Rhygwellt yr Eidal. Mae'n gobeithio cyflwyno system feddalwedd newydd ar y fferm, gan gynnwys dyfais adnabod electronig a fydd yn ei alluogi i fonitro ei anifeiliaid yn fwy trwyadl. "'Rwy'n gobeithio, y bydd y system newydd yn golygu gallu monitro tua 800 o ŵyn a'u cyfraddau twf ar y gwahanol fathau o dir glas; wedyn gallaf ddefnyddio'r data wrth benderfynu pa hadau i'w hau."

Ffeithiau am y fferm:

Mae Glanyrafon yn fferm ddefaid ger Llanbedr Castell-paen. Cedwir 1200 o ddefaid yno ac ar ddau barsel o dir tua 10 milltir i ffwrdd. Mae'r ddiadell yn cynnwys 1000 o ddefaid Aberdale masnachol a 200 o ddefaid Texel purlinach. Cyflwynwyd rhai ŵyn benyw o groesiad Texel am y tro cyntaf eleni. Mae'r ŵyn i gyd yn pesgi ar y fferm ac yn cael eu hanfon naill ai i ladd-dy neu farchnad da byw.